**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**18fed Mehefin 2012**

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD AMCANOL ANARCHWILIEDIG 2011-12**

**Adroddiad gan Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniadau Dangosyddion Perfformiad Strategol anarchwiliedig yr Awdurdod am y flwyddyn 2011-12.

## Cyflwyniad

2 Roedd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011 yn nodi tri Dangosydd Perfformiad Strategol statudol y byddai perfformiad awdurdodau tân ac achub yn cael eu mesur yn eu herbyn o 2011-12 ymlaen.

## Gwybodaeth

3 Mae canlyniadau amcanol y tri Dangosydd Perfformiad Strategol a gyfrifwyd yn 2011-12 yn dangos gwelliant o'u cymharu â chanlyniadau 2010-11. Mae ffigurau'r dangosyddion a'u his-ddangosyddion ynghlwm yn Atodiad 1.

4 Er bod y ffigurau wedi gostwng yn gyffredinol, mae nifer y tanau damweiniol mewn anheddau wedi cynyddu bedwar, ond gan fod nifer yr anheddau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dangosydd wedi cynyddu, mae'r dangosydd a gyfrifwyd yn derfynol yn dal i ddangos gwelliant.

5 Caiff y ffigurau terfynol eu darparu i'r Awdurdod yn nes ymlaen yn y flwyddyn, wedi iddynt gael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Argymhelliad

6 Bod yr aelodau'n nodi canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Strategol amcanol anarchwiliedig yr Awdurdod yn 2011-12.

ATODIAD 1

| Dangosydd Perfformiad | 2010-11 | 2011-12(p) | Wedi gwella? |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt yn ôl 10,000 o’r boblogaeth (FRS/RRC/S/001i) | 48.57 | 46.65 | Do |
| Cyfanswm y prif danau yr aethpwyd atynt, fesul 10,000 o’r boblogaeth (FRS/RRC/S/001ii) | 19.83 | 19.15 | Do |
| Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain mewn anheddau, fesul 10,000 o anheddau (FRS/RRC/S/001iii) | 15.35 | 14.92 | Do |
| Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt a oedd wedi eu cynnau’n fwriadol, fesul 10,000 o’r boblogaeth (FRS/RRC/S/001iv) | 21.19 | 20.19 | Do |
| Nifer y marwolaethau a achoswyd gan danau, fesul 100,000 o’r boblogaeth (FRS/RRC/S/002i) | 1.47 | 1.18 | Do |
| Nifer y marwolaethau a achoswyd gan danau a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain, fesul 100,000 o’r boblogaeth (FRS/ RRC/S/002ii) | 1.47 | 1.18 | Do |
| Nifer y marwolaethau a achoswyd gan danau a oedd wedi eu cynnau’n fwriadol, fesul 100,000 o’r boblogaeth (FRS/RRC/S/002iii) | 0 | 0 | - |
| Nifer yr anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau, fesul 100,000 o’r boblogaeth (FRS/RRC/S/002iv) | 14.29 | 9.43 | Do |
| Nifer yr anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain, fesul 100,000 o’r boblogaeth (FRS/RRC/S/002v) | 12.67 | 8.25 | Do |
| Nifer yr anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau a oedd wedi eu cynnau’n fwriadol, fesul 100,000 o’r boblogaeth (FRS/RRC/S/002vi) | 1.62 | 1.18 | Do |
| Cyfanswm y tanau mewn mangreoedd annomestig, fesul 1,000 o fangreoedd annomestig (FRS/RRC/S/003) | 8.35 | 7.82 | Do |